

# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## **Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Rhagfyr 12 2023**

**Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith, Sandra Bodden Jones, Gwilym Jones, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Llywelyn Rhys  
Marian Roberts (Clerc)

**212.12.23 Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :-** Michael Roberts, John Gwynedd Roberts, Dr Melfyn Edwards, Connor Westwood

### **213.12.23. Adroddiad y Cadeirydd.**

Croesawyd pawb i gyfarfod olaf y Cyngor Tref am 2023. Diolchwyd i bawb gyfranodd i lwyddiant noson Goleuo Port ar 24.11.23. Roedd yn llongyfarch Mared Roberts, aelod o glwb CFFI Dyffryn Madog, am ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol CFFI yn ddiweddar.

Estynwyd cydymdeimlad â theulu y diweddar Huw Trefor Jones yn eu profedigaeth yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio. Roedd Huw Trefor Jones wedi addysgu cenedlaethau o blant Porthmadog yn Ysgol Eifionydd ac roedd yn uchel iawn ei barch gan y gymuned ehangach. Estynwyd cydymdeimlad hefyd â phawb sydd wedi colli anwyliad yn yr wythnosau diwethaf.

Diolchwyd i bawb am eu gwasanaeth dros y flwyddyn a dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen i bawb.

### **214.12.23. Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-**

#### **Cyfarfod Llawn Tachwedd 14 2023**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

#### **Is-Bwyllgor Eiddo 28.11.23**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

#### **Is-Bwyllgor Cyllid 28.11.23**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

### **215.12.23 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**

Dim datganiad o ddiddordeb.

### **216.12.23. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Dim Cais Cynllunio wedi dod i law.

## **MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

### **217.12.23 Cymeradwyo penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 28.11.23**

**Penderfynwyd :-** Cymeradwyo penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 28.11.23 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**218.12.23 Cyng Sandra Bodden Jones :-** cynnig ethol Cynghorydd i gymryd ei lle yn cynrychioli'r Cyngor Tref ar bwyllgor y Ganolfan.

Clywyd bod Cyng Michael Roberts eisoes wedi cytuno i gynrychioli'r Cyngor Tref ar bwyllgor y Ganolfan yn lle Cyng Sandra Bodden Jones.

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a bydd y Clerc yn hysbysu Pwyllgor y Ganolfan o'r newid.

**219.12.23 Cyng Michael Roberts :-** cynnig gwneud cais i Adran Forwrol Cyngor Gwynedd i beidio

caniatâu gadael cŵn yn rhydd heb dennyn ar draeth Morfa Bychan.

Yn absenoldeb Cyng Michael Roberts **penderfynwyd** gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf ar Ionawr 9 2024.

**220.12.23 Cyng Carol Hayes** :- cynnig penderfynu ar y ffordd ymlaen i ail-gydio yn y broses gefeillio gyda Wicklow.

Cafwyd eglurhâd am gefndir y broses gefeillio rhwng Porthmadog â Wicklow a chlywyd fel yr oedd rhyngweithio da wedi bod rhwng y ddwy dref yn y gorffennol. Roedd pethau wedi dod i ben dros gyfnod Cofid ond deallwyd bod trafodaethau ar y gweill i ail-gychwyn y berthynas. Yr unig gyfrifoldeb fyddai'r Cyngor Tref yn ei ysgwyddo fyddai darparu cefnogaeth ariannol i'r Pwyllgor Efeillio petaent yn trefnu i rai o drigolion Wicklow i ddod ar ymweliad â Phorthmadog yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** :- tynnu'r cais yn ôl , yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes.

**221.12.23 Cyng Carol Hayes** :- Cynnig cysylltu gyda'r adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd (Gwynedd Oed Gyfeillgar) i ofyn iddynt ail-sefydlu awr yr wythnos o "ymarfer corff" i oedolion dros 60 oed yng Nghanolfan Glaslyn, Porthmadog.

**Penderfynwyd** :- gweithredu ar gynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio ar yr amod fod y Cyngor Tref yn ariannu dosbarthiadau cyffelyb yn Y Ganolfan os bydd Canolfan Glaslyn yn gwrthod.

**222.12.23 Cyng Carol Hayes** :- Cynnig gofyn i Marian Roberts os fuasai yn fodlon cael ei chyflogi gan y Cyngor Tref am gyfnod byr fel "mentor" i unrhyw Clerc newydd.

**Penderfynwyd** :- gweithredu ar gynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

**223.12.23 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** *Dyddiad cau Rhaglen Ionawr 9 2024 = Rhagfyr 31 2023 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Cyng Michael Roberts** :- cynnig gwneud cais i Adran Forwrol Cyngor Gwynedd i beidio caniatâu gadael cŵn yn rhydd heb dennyn ar draeth Morfa Bychan.

**224.12.23 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb** (copi ynghlwm).

Nodwyd bod y sefyllfa yn foddhaol iawn ar hyn o bryd.

## **GOHEBIAETH :**

**225.12.23 ADRA, Cais i'r Cyngor Tref ofalu am ddiffibriliwr Pensyflog**

Clywyd fel yr oedd y diffibriliwr eisoes wedi cael ei osod ym Mhensyflog gan weithwyr Adra. Nodwyd fod 5 allan o 23 o ddiffibrilwyr Porthmadog yn dod o dan ofal a chyfrifoldeb Clerc y Cyngor Tref ac o'r herwydd yn cael eu harchwilio a'u diweddarau yn rheolaidd ar rwydwaith y BHF gan y Clerc.

**Penderfynwyd** :- gwrthod y cais i'r Cyngor Tref fabwysiadu cyfrifoldeb ychwanegol am ddiffibriliwr Pensyflog yn ôl cynnig Cyng Sandra Bodden Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**226.12.23 UN LLAIS CYMRU, Ymgynghoriad strategaeth diogelwch ffyrdd Y ddogfen ymgynghori 13 tudalen ( copi electronig yn unig)**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**227.12.23 NALC, Graddfeydd cyflog Clercod 2023-24**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**228.12.23 LLYWODRAETH CYMRU, Swm priodol o dan 137A 2024-25**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**229.12.23 NETWORK RAIL, Adroddiad cyfarfod croesfan Gorseddau 8.11.23**

**Penderfynwyd** :- ysgrifennu'n ôl i ddiolch am y cyfarfod ac am yr adroddiad ac i ofyn iddynt gwblhau'r gwaith yn ystod gwyliau'r ysgol er mwyn sicrhau diogelwch y disgyblion sy'n defnyddio'r groesfan yn ddyddiol, yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**230.12.23 ADRAN CYNLLUNIO, Ymateb i 170.10.23 bwrdd gwybodaeth Madocks**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**231.12.23 ADRAN CYNLLUNIO, Ymateb i gais i osod mainc goffa ar Cob Crwn (gweler llun 1)**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**232.12.23 HWB IECHYD EIFIONYDD, Diweddariad**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**233.12.23 CLWB GOLFF, Ymateb i 197.11.23 arwyddion dwy-ieithog**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**234.12.23 ELIN WYN HUWS C.G., Gosod y Praesept am 2024-2025**

**Tabl Sylfaen Drethiannol Cymunedau Gwynedd**

**Tabl i ddangos cynnydd yn y Praesept**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth a'i ddefnyddio i drafod y mater yn 241.12.23.

**235.12.23 UN LLAIS CYMRU, Adroddiad Drafft Cydnabyddiaeth ariannol 2024**

**Copi electronig yn unig (31) tudalen o'r ddogfen**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**236.12.23 RICHARD GLYN ROBERTS, Gwarchod y Gymraeg yn ein hysgolion**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth a chytuno i'r cais i yrru copi o'r llythyr ymlaen

i Adran Addysg Gwynedd gan hefyd yrru copi fel tystiolaeth yn ôl i Richard Glyn Roberts yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**237.12.23 UN LLAIS CYMRU, Gwobrau Cenedlaethol Cymru 27.3.24**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**238.12.23 UN LLAIS CYMRU, Ymgynghoriad – Bil Cyllid Llywodraeth Cymru**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**239.12.23 STEPHEN FAHERTY, Esboniad am y broses o gomisiynu cerflun Madocks**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth a gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf gan obeithio am bresenoldeb mwy o Gynghorwyr i drafod y mater.

**240.12.23 DEWI WYN OWEN, Pont droed rhwng llwybr y Cyt ag Isgraig**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**MATERION ARIANNOL :**

**241.12.23 Penderfynu ar y praesept 2024-2025 (Gweler Gohebiaeth 10)**

Nodwyd fod y Praesept wedi aros yr un fath ers 3 blynedd er fod lefelau chwyddiant wedi codi yn sylweddol yn ddiweddar. Eglurwyd y byddai codiad o 7% yn y Praesept ( o £62,581.43 i £66,962.10) yn golygu codiad o ddim ond £1.93 y flwyddyn i bob tŷ ym Mhorthmadog sydd o fewn Band D Treth Cyngor.

**Penderfynwyd** :- cymeradwyo a gweithredu ar argymhelliad yr Is-Bwyllgor Cyllid ar 29.11.23 i godi'r Praesept 7% .

Ymddiheurodd Cyng Llywelyn Rhys am orfod gadael y cyfarfod.

**Derbyniadau :**

H.S.B.C.	Llog Banc Hydref / Tachwedd 2023	£	56.70
Marian Roberts	Ad-daliad am yr Advent Calendars oedd drosben wedi noson Goleuo Port	£	129.00

**Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Sandra Bodden Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio.**

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Tachwedd 2023	£	59.79
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Tachwedd 2023*	£	1,030.57
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Tachwedd 2023*	£	257.64
4	Marian Roberts	Ad-daliad Inc du a lliw	£	36.49
5	Cambrian News	Hysbyseb swydd Clerc 9.11.23	£	118.80
6	Marian Roberts	Ôl-daliad codiad cyflog ers Ebrill 2023 (7 mis)*	£	388.27
7	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm Ôl-daliad cyflog Clerc*	£	97.06
8	Penrhyn Tool Hire	Cherry Picker i osod y coed/ goleuadau Nadolig	£	175.20
9	Glasfryn	4 x coeden Nadolig	£	1012.20
10	Xerox Finance	Llogi llungopïwr o 1.1.24 i 31.3.24	£	104.40
11	Arena Group	Llungopïo	£	9.46
12	Marian Roberts	Ad-daliad am dalu ffi Côt Cynhaearn gydag arian parod	£	50.00
13	R.J.Electrics	Gosod, profi a thynnu goleuadau Nadolig	£	6,516.90
14	Yr Wylan	Hysbyseb swydd Clerc Tachwedd	£	20.00

\* **Codiad cyflog** o £17.58 yr awr i £18.58 yr awr ers Ebrill 2023.

£18.58 x 16 = £297.28

£297.28 x 52 =  $\frac{£15,458.56}{12}$  = £1,288.21 llai Treth Incwm @ 20% ( £257.64 ) = £1,030.57

\***Ôl-daliad cyflog** Ebrill – Hydref 2023

16 x 52 =  $\frac{£832.00}{12}$  = £69.33

£69.33 x 7 mis = £485.33 llai Treth Incwm @ 20% ( £97.06 ) = £388.27

( Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei gwasanaeth ers fis Medi 2020. Eglurodd fel yr oedd wedi bod yn gyfnod anodd o ystyried Cofid a'r gofynion technolegol newydd a ddaeth yn ei sgil a'i bod wedi gweithio dan arweiniad 3 Cadeirydd gwahanol yn ystod ei chyfnod fel Clerc ac wedi ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol. Ategwyd y diolchiadau gan weddill y Cyngor Tref.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.15

Marian Roberts  
( Clerc)  
14.12.23